# CYNGOR SIR Y FFLINT
# GRANT CIST GYMUNEDOL
# FFURFLEN GAIS 2025–2026

**DARLLENWCH Y NODIADAU CANLLAW CYN LLENWI'R FFURFLEN GAIS HON**

***This document is also available in English.*** **Ni fydd cais am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.**

| **At ddefnydd y swyddfa yn unig** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad derbyn: | | Llythrennau cyntaf: | | Cyfeirnod: | |

## A) Eich sefydliad

| | |
|---|---|
| Enw: | Lleoliad y sefydliad: |
| Cyfeiriad: | |
| Cod post: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r sefydliad wedi'i leoli mewn adeilad sy'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint neu gorff statudol/sector cyhoeddus? | Ydi ☐ | Nac ydi ☐ | Ddim yn gwybod ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n cael cyllid statudol?<br>Os felly, trafodwch â'r Swyddog Ymgynghori ar Gyllid yng Nghyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint (CGLISFf) cyn cwblhau'r cais. | Ydym ☐ | Nac ydym ☐ | Ddim yn gwybod ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi wedi cael Grant Cist Gymunedol o'r blaen? | Ydym ☐ | Nac ydym ☐ |
| Os felly, nodwch pryd y cawsoch chi'r grant hwn | | |

## B) Ymgeisydd (ar ran y grŵp / sefydliad)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf: | | Cyfenw: | |
| Swydd yn y sefydliad: | | | |
| Cyfeiriad (os yw'n wahanol i'r uchod): | | | |
| Cod post: | | E-bost: | |
| Rhif ffôn dydd: | | Rhif ffôn symudol: | |

## C) Cyfeiriad i'w ddefnyddio ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig am eich cais
(Ticiwch un blwch yn unig)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sefydliad (sydd yn Adran A) | ☐ | Ymgeisydd (sydd yn Adran B) | ☐ |

## D) Gwybodaeth am y grŵp / sefydliad

| | |
|---|---|
| Pryd ffurfiwyd eich grŵp? | |

| | |
|---|---|
| Beth yw statws eich grŵp? (Ticiwch un blwch yn unig) | |
| ☐ Cwmni Buddiannau Cymunedol / Cwmni Cyfyngedig drwy Warant | ☐ Elusen Gofrestredig neu Sefydliad Corfforedig Elusennol |
| ☐ Cwmni Buddiannau Cymunedol / Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau* | ☐ Cymdeithas Gyfeillgar Gofrestredig |
| ☐ Grŵp neu fudiad gwirfoddol / cymunedol heb ei gofrestru | |
| ☐ Arall (nodwch): | |

| | | |
|---|---|---|
| A ydych yn gangen leol o fudiad cenedlaethol neu ranbarthol? | ☐ Nac ydym | ☐ Ydym |

## E) Gwybodaeth am eich grŵp / sefydliad

| |
|---|
| Beth yw nodau eich grŵp? (uchafswm o 150 gair) |
| |

| Beth yw'r prif weithgareddau mae eich grŵp yn eu darparu ar hyn o bryd? (uchafswm o 200 gair) |
|---|
| |

| | | |
|---|---|---|
| Mae diogelu oedolion, pobl ifanc a phlant yn flaenoriaeth i'r Cyngor; mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldebau i gadw pobl yn ddiogel o ddifrif. Mae cadw plant ac oedolion yn ddiogel yn fater i bawb; mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a'u gwarchod rhag eraill a all fod yn eu cam-drin. | | |
| Oes gennych chi Bolisi Diogelu? | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| Oes gennych chi Bolisi Cydraddoldeb / Amrywiaeth? | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| Oes gennych chi Bolisi Iaith Gymraeg? | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| Os nad oes gennych unrhyw un o'r polisïau hyn, cysylltwch â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint (CGLISFf) info@flvc.org.uk | | |

## F) Gwybodaeth am y pwyllgor rheoli / bwrdd ymddiriedolwyr

| | |
|---|---|
| Faint o Aelodau Pwyllgor Rheoli sydd gennych? | |
| Pa mor aml ydych chi'n cyfarfod? | |
| Beth yw enwau'r pwyllgor rheoli? | |
| Cadeirydd: | |
| Trysorydd: | |
| Ysgrifennydd: | |

## G) Sut fydd y grant yn cael ei ddefnyddio?

| Teitl y prosiect: |
|---|

| Ar gyfer pa fath o weithgaredd fyddwch chi'n defnyddio'r grant? (Darllenwch y nodiadau canllaw am fanylion am yr hyn sy'n gymwys a'r hyn sy'n anghymwys). |
|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Mân atgyweiriadau i adeiladau, gosodiadau a ffitiadau | ☐ | 5. Astudiaethau dichonoldeb | ☐ |
| 2. Offer (ac eithrio nwyddau traul) | ☐ | 6. Marchnata / cyhoeddusrwydd | ☐ |
| 3. Digwyddiadau / cyrsiau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth | ☐ | 7. Ymateb i sefyllfaoedd brys a dod yn ôl i drefn ar eu holau | ☐ |
| 4. Digwyddiad untro, am ddim, i'r gymuned gyfan | ☐ | | |

| |
|---|
| Rhowch ddisgrifiad byr o bwrpas y grant rydych wedi gwneud cais amdano. Cofiwch:<br>• Ddangos yr angen yn y gymuned am y prosiect hwn<br>• Cynnwys beth fydd effaith hirdymor y prosiect hwn<br>• Dweud sut y bydd y prosiect o fudd i'r gymuned (uchafswm o 100 gair) |
| |

## H) Pwy fydd yn elwa o'ch prosiect?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tua faint o bobl fydd yn elwa o'r prosiect: | | | |
| A ble mae'r rhai hynny a fyddai'n elwa'n byw? | | | |
| ☐ | Sir y Fflint | ☐ | Y tu allan i Sir y Fflint |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r Cyngor wedi arwyddo **Cyfamod y Lluoedd Arfog** ac wedi ymrwymo i drin cymuned y Lluoedd Arfog, yn cynnwys cyn-filwyr, yn deg. | | |
| A yw eich sefydliad chi wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog? | Ydi ☐ | Nac ydi ☐ |
| A fydd y cymuned y Lluoedd Arfog yn elwa o'r prosiect hwn? | Bydd ☐ | Na fydd ☐ |
| Os bydd, eglurwch sut y bydd cymuned y lluoedd arfog yn elwa | | |
| | | |

| |
|---|
| Mae gan Gyngor Sir y Fflint gyfrifoldeb i hyrwyddo, cefnogi a diogelu'r **Gymraeg** er budd cenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol. Mae ganddo gyfrifoldeb penodol dan Fesur y Gymraeg 2011 i sicrhau bod pob sefydliad sy'n cael cyllid grant yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Ewch i Helo Blod i ddysgu am wasanaethau cyfieithu rhad ac am ddim ar gyfer eich prosiect. Mae syniadau i gynnwys mwy o Gymraeg yn eich prosiect i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg lle mae enghreifftiau o sut mae elusennau yn cynnwys mwy o Gymraeg yn eu gwaith. |

| | | |
|---|---|---|
| Pa effaith fydd y prosiect hwn yn ei gael ar y defnydd o'r Gymraeg? | Cadarnhaol ☐ | Negyddol ☐ |
| Sut bydd yr arian rydych yn gwneud cais amdano o'r gronfa Cist Gymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg? Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal? | | |
| | | |

| | |
|---|---|
| **I)** | **Cyllid ar gyfer y prosiect cyfan** |

| | |
|---|---|
| Nodwch gyfanswm costau'r prosiect (gan gynnwys copïau o ddyfynbrisiau neu amcan brisiau diweddar) | |
| **Cyfanswm Costau'r Prosiect** (Cyfeiriwch at y penawdau gweithgareddau yn Adran G)**:** | **£** |
| 1. | **£** |
| 2. | **£** |
| 3. | **£** |
| 4. | **£** |
| 5. | **£** |
| 6. | **£** |
| 7. | **£** |
| Ychwanegwch fwy o linellau os oes angen | |
| **CYFANSWM COSTAU'R PROSIECT** | **£** |
| **CYFANSWM Y CAIS AM GRANT** | **£** |
| Bydd Cyngor Sir y Fflint yn ariannu hyd at 75% o gyfanswm costau'r prosiect hyd at uchafswm o £1,000. Dangoswch o le y bydd arian cyfatebol i dalu'r costau sy'n weddill yn dod. | |
| | **£** |
| A ydych wedi gwneud cais i unrhyw gronfeydd eraill tuag at y prosiect hwn? Os ydych, rhowch fanylion | **£** |
| | |

| | |
|---|---|
| A ydych chi'n gallu hawlio TAW yn ôl ar yr eitemau rydych wedi'u nodi yn eich cais?<br><br>Os ydych, rhowch fanylion: | Ydym ☐ Nac ydym ☐ |

Rydym yn cadarnhau bod yswiriant wedi'i drefnu ar gyfer yr eitemau/gweithgareddau hyn
Ydym ☐ Nac ydym ☐

Rydym yn cadarnhau y bydd cyfarpar sy'n cael ei brynu gyda'r grant hwn yn cael ei gadw mewn lle diogel Ydym ☐ Nac ydym ☐

Rydym yn cytuno, os cawn y grant hwn, y bydd yn cael ei wario o fewn 9 mis i ddyddiad ei ddyfarnu a dim ond at y dibenion sydd wedi'u gymeradwyo y bydd yn cael ei ddefnyddio. Deallwn y bydd rhaid dychwelyd y grant os nad yw wedi'i ddefnyddio o fewn 9 mis ac at y dibenion a gafodd eu cymeradwyo. ☐

## J) Sefyllfa ariannol eich sefydliad

Dywedwch wrthym am incwm, gwariant a symiau dros ben/colled net eich sefydliad ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf a gwblhawyd. Sefydliadau newydd eu ffurfio – rhowch amcangyfrif.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Incwm:** | | **Gwariant:** | |
| **Dyddiadau:** | | **Balans:** | |

## K) Datgan Cysylltiadau

A oes unrhyw **Gynghorwyr a / neu Swyddogion o Gyngor Sir y Fflint** sy'n gyfarwydd â'ch grŵp neu'n rhan ohono? (Nodwch a ydynt yn gyfarwydd ag o neu'n rhan ohono)

| **Enw** | **Cyfarwydd** | **Sut maent ynghlwm ag o** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| *Ychwanegwch fwy o linellau os oes angen* | | |

## L) Dewis Iaith

Sut ydych chi eisiau cael gohebiaeth yn y dyfodol ynghylch eich cais am grant?

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ | Saesneg yn unig | ☐ | Cymraeg yn unig |
| ☐ | Dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) | ☐ | Arall, nodwch: |

## M) Datganiad

Gofynnir am dystiolaeth o sut mae'r prosiect yn cael ei gyflawni, fel mae eich cais yn nodi. Gall hyn fod ar ffurf copïau o anfonebau, lluniau ac/neu ymweliadau gan aelod o staff.

Mae'n rhaid cwblhau'r holl brosiectau neu wariant o fewn 9 mis ar ôl cael gwybod bod y cyllid wedi'i ddyfarnu i chi.

Rwy'n tystio bod y manylion sydd wedi'u darparu ar y Ffurflen Gais hon am grant Cist Gymunedol yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n deall y gall Cyngor Sir y Fflint a/neu Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint ofyn wirio unrhyw wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn rhan o fy nghais am grant. Rwy'n deall, os daw i'r amlwg bod unrhyw ran o'r wybodaeth hon yn anwir, yn gamarweiniol neu ar goll, y gall hyn arwain at beidio prosesu/dyfarnu fy nghais.

Rwy'n deall bod Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint yn gweinyddu'r grant hwn ar ran Cyngor Sir y Fflint ac efallai y bydd angen gofyn i mi ddarparu mwy o wybodaeth er mwyn gwneud y penderfyniad i ddechrau asesu fy nghais am grant.

**Sylwer:** Trwy gyflwyno'r cais hwn, boed ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post, rydych yn cadarnhau bod y wybodaeth sydd wedi'i rhoi'n wir ac yn gywir.

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd (LLYTHRENNAU BRAS): | |
| Swydd ar y Bwrdd / Pwyllgor Rheoli (os yw'n berthnasol): | |
| Llofnod (wedi'i sganio neu'n electronig yn dderbyniol): | Dyddiad: |
| Enw'r Ymddiriedolwr / Aelod o'r Pwyllgor Rheoli (LLYTHRENNAU BRAS): | |
| Swydd ar y Bwrdd / Pwyllgor Rheoli: | |
| Llofnod (wedi'i sganio neu'n electronig yn dderbyniol): | Dyddiad: |

**Anfonwch y ffurflen hon mewn e-bost at:** **funding@flvc.org.uk**

**Os na allwch ei hanfon mewn e-bost, argraffwch hi, llofnodwch hi a'i phostio (gyda'r HOLL ddogfennau angenrheidiol) at:** Gweinyddu Grantiau
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint
CORLAN, Uned 3, Parc Busnes yr Wyddgrug
Ffordd Wrecsam, YR WYDDGRUG, Sir y Fflint, CH7 1XP

**Enw'r Sefydliad: ________________________________**

# RHESTR WIRIO O'R DOGFENNAU I'W CYFLWYNO GYDA'R CAIS

Sicrhewch fod y rhestr wirio hon wedi'i chwblhau a bod yr holl ddogfennau'n cael eu cyflwyno gyda'ch cais.

**NI FYDD** ceisiadau'n cael eu hystyried am grant os na fydd y dogfennau angenrheidiol yn cael eu hanfon.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Mae'r ffurflen gais wedi'i llofnodi gan yr Ymgeisydd neu mae'r datganiad wedi ei gadarnhau os cyflwynwyd ar-lein. | ☐ |
| 2. | Mae'r ffurflen gais wedi'i llofnodi gan aelod priodol o Bwyllgor Rheoli'r sefydliad.<br>(Nid yr ymgeisydd). | ☐ |
| 3. | Mae copi o'r cyfansoddiad neu'r rheolau, wedi'i lofnodi gan y Cadeirydd, Ysgrifennydd neu'r Trysorydd, wedi'i gynnwys. | ☐ |
| 4. | Mae tystiolaeth o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu wedi'i chynnwys. Dylai hyn fod ar ffurf y gyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu ddiweddaraf | ☐ |
| 5. | Mae copi o'r cyfrifon neu'r datganiad incwm a gwariant blynyddol diweddaraf wedi'i gynnwys. Rhaid i hwn fod wedi'i lofnodi gan y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd (Os byddwch yn darparu cyfrifon wedi'u harchwilio, dim ond un llofnodwr sydd ei angen) | ☐ |
| 6. | Dyfynbris am eitemau i'w prynu gan ddefnyddio'r grant hwn, os caiff ei roi. | ☐ |

**Cofiwch gadw copi o'r ffurflen gais ar gyfer eich cofnodion chi**

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn gweinyddu'r Grant Cist Gymunedol ar ran Cyngor Sir y Fflint. Cyngor Sir y Fflint yw'r Rheolydd Data ar gyfer yr holl wybodaeth yr ydych yn ei darparu ar gyfer y Grant hwn.

Bydd eich data yn cael ei brosesu gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint at ddibenion asesu eich cais am Grant Cist Gymunedol yn unig.

O dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, y sail gyfreithlon dros brosesu'r wybodaeth hon yw bod arnom ei hangen i gyflawni tasg gyhoeddus o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae angen prosesu eich data personol at ddibenion asesu a gweinyddu'r Grant hwn i allu gwneud penderfyniad ar gyllid. Bydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint yn cadw eich data ac efallai y bydd angen rhannu hwn gyda Chyngor Sir y Fflint er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar gyllid. Ni fydd eich data personol yn cael ei rannu gydag unrhyw un arall. Bydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn cadw eich gwybodaeth yn unol â chanllawiau cadw presennol y Cyngor – blwyddyn gyfredol a chwe blynedd arall ar gyfer grantiau.

Os ydych chi'n teimlo bod eich data personol yn cael ei gamddefnyddio ar unrhyw adeg, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan:
https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx

**Ni fydd cais am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.**